



# Chwaraeon Rhct Astudiaeth Achos

## Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Cyflwynodd athrawon a Llysgenhadon Ifainc Efydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail gais i'n cronfa ysgolion am £250. Canolbwyntiodd eu cais ar ddatblygu Gemau'r Iard Chwarae fel bod modd i bob disgybl, o'r ysgol feithrin hyd at flwyddyn 6, gymryd rhan. Dangosodd canlyniadau Arolwg ar Chwaraeon Ysgol fod 46% o ddisgyblion yr ysgol yn awyddus i gymryd rhan mewn rhagor o chwaraeon pe baen nhw'n cael y cyfle.

Nod y prosiect yma oedd datblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion a gwella eu lefelau ffitrwydd ar yr un pryd. Cafodd y disgyblion gyfle i gynllunio eu gemau eu hunain i chwarae ar iard yr ysgol gan ddefnyddio offer ac adnoddau a gafodd eu prynu gyda'r cyllid grant. Yn ogystal â hynny, roedden nhw wedi defnyddio'r offer i gyflwyno cyfres o gemau ar iard yr ysgol. Cafodd y gemau yma eu datblygu ar y cyd â Chonsortium Canolbarth y De a'r Siarter Iaith.

Mae disgyblion yn treulio tua awr o'u hamser ar iard yr ysgol bob dydd yn rhan o'u sesiynau amser chwarae ac amser cinio. Rhoddodd y prosiect yma gyfle iddyn nhw gynllunio gemau a'u rhoi nhw ar waith ar yr iard yn ystod yr amseroedd yma, gan eu helpu nhw i ddatblygu eu sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg a dysgu sut i chwarae'n deg gyda disgyblion eraill.



 **Cymerodd**  
**121**  
o ddisgyblion ran

 **Mae**  
**50%**  
bellach yn fwy heini, yn fwy aml

 **Mae**  
**100%**  
am barhau i ymarfer corff

 **Mae**  
**86%**  
yn teimlo'n iachach

 **Mae**  
**58%**  
yn teimlo'n fwy hyderus

 **Mae**  
**81%**  
yn teimlo'n hapusach

 **Mae**  
**28%**  
wedi gwneud ffrindiau newydd

